**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Mai 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1052
Rhif dogfen:13 /037

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Mai 2013

Anne Thomas ac Owain Roberts

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... 1

**2. Cefndir** .......... 2

2.1. Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru .......... 2
2.2. Ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach .......... 3
2.3. Datblygiadau yn Lloegr .......... 4
2.4. Rhannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau addysg uwch .......... 5

**3. Llinell amser** .......... 6

3.1. Adolygiadau blaenorol o addysg bellach .......... 6
3.2. Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru .......... 7
3.3. Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn .......... 8
3.4. Deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru .......... 9

**4. Y Bil** .......... 10

4.1. Nodau ac amcanion polisi .......... 10
4.2. Darpariaethau .......... 11
4.3. Gweithredu ac adolygu .......... 13

**5. Goblygiadau ariannol** .......... 14

**6. Ymatebion** .......... 15

# Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 29 Ebrill 2013

**Yr aelod sy'n gyfrifol:** Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

**Pwyllgorau'r Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1:** Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Dyddiad cau ar gyfer adroddiad Cyfnod 1:** 19 Gorffennaf 2013

Nod y *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)*[1] ('y Bil') yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Gorfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar wahân ar gyfer y sector addysg uwch sy'n galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i rannu gwybodaeth am asesu cymhwystra ar gyfer grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr â Gweinidogion Cymru drwy gyswllt data.

Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y cynnig presennol, gan gynnwys manylion am resymau Llywodraeth Cymru dros gyflwyno'r Bil, a throsolwg cyffredinol ar ymgynghoriadau ac adolygiadau perthnasol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill o addysg bellach ac uwch yng Nghymru hyd yn hyn. Mae hefyd yn cynnig trosolwg cyffredinol ar brif amcanion a darpariaethau'r Bil, ac mae'n crynhoi ymatebion cychwynnol Aelodau'r Cynulliad i'w gyhoeddi.

[1] *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)* [fel ar 21 Mai 2013]

## 2. Cefndir

### *2.1. Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru*

Sefydlwyd Corfforaethau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Bellach dynodedig yng Nghymru ym mis **Ebrill 1993** drwy *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.*[2] Amlinellir y fframwaith presennol ar gyfer llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru yng *Ngorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006*.[3]

Ar hyn o bryd, mae 14 o Gorfforaethau Addysg Bellach a phedwar o Sefydliadau Addysg Bellach dynodedig yng Nghymru. Yn y ddogfen hon, defnyddir y byrfodd SAB i gyfeirio at y rhain i gyd.[4] Fe'u rhestrir isod:

**Corfforaethau Addysg Bellach:**

- Coleg Pen-y-bont
- Coleg Caerdydd a'r Fro (unodd Coleg y Barri â Choleg Glan Hafren ym mis Awst 2011)
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent (Fe'i crëwyd o bum coleg – colegau Brynbuga, Casnewydd, Cross Keys, Glynebwy a Phont-y-pŵl)
- Coleg Morgannwg (sy'n cynnwys Colegau Pontypridd a'r Rhondda a Choleg Aberdâr)
- Coleg Powys
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Glannau Dyfrdwy (Unodd â Choleg Llysfasi a Choleg Garddwriaeth Cymru)
- Coleg Gŵyr Abertawe (Unodd Coleg Abertawe â Choleg Gorseinon ym mis Awst 2011)
- Grŵp Llandrillo Menai (Unodd Coleg Llandrillo â Choleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai ym mis Ebrill 2012)
- Coleg Castell-nedd Port Talbot (fe'i crëwyd drwy uno Coleg Afan â Choleg Castell-nedd yn 1999)
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Iâl
- Coleg Ystrad Mynach

---

[2] ***Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*** (Pennod 13) (Saesneg yn unig) [fel ar 2 Mai 2013]
[3] ***Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006*** OS 2006/13 (Saesneg yn unig) [fel ar 3 Mai 2013]
[4] Mae rhagor o wybodaeth am addysg bellach yng Nghymru yma: ***Papur Gwasanaeth Ymchwil: Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru***, cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013

**Sefydliadau Addysg Bellach:**

- Coleg Cymunedol YMCA
- Coleg Catholig Dewi Sant
- CAG (Gogledd) Coleg Harlech[5]
- CAG De

## *2.2. Ailddosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach*

Adeg eu ffurfio ym mis **Ebrill 1993,** cafodd SAB eu dosbarthu'n 'Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd' (‘NPISH’) at ddibenion cyfrifon gwladol. Mae'r sector hwn yn cynnwys nifer o gyrff megis prifysgolion, elusennau, undebau llafur neu gyrff cymdeithas sifil y gellid ystyried eu bod yn rhan o'r 'Trydydd Sector' (h.y. nid yn y sector preifat na'r sector cyhoeddus). O ran cyfrifon gwladol fodd bynnag, **mae NPISH yn rhan o'r sector preifat.** Mae hyn yn groes i'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg cyn-16 yn y Deyrnas Unedig (ac eithrio ysgolion annibynnol/preifat) sy'n perthyn i ddosbarth y sector llywodraeth gyffredinol.

Ym mis **Hydref 2010,** cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y byddai'n **ailddosbarthu SAB yng Nghymru a Lloegr,** Corfforaethau Colegau Chweched Dosbarth (nad ydynt ond yn bodoli yn Lloegr), Colegau Addysg Bellach yn yr Alban a Sefydliadau Addysg Bellach yng Ngogledd Iwerddon a'u symud o'r sector NPISH i'r sector llywodraeth gyffredinol, gan ddweud eu bod wedi'u dosbarthu'n anghywir ers dechrau'r 1990au.

Rhesymau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol dros ddweud hyn oedd iddi ddarganfod bod gan y sector cyhoeddus reolaethau dros y sefydliadau hyn,[6] a bod hynny'n digwydd ar raddfa ddigonol iddi gasglu bod gan y sector cyhoeddus reolaeth dros bolisi corfforaethol cyffredinol y cyrff hyn. Dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd y dylid ôlweithredu'r penderfyniad hwn dros y cyfnod pan ddylai sefydliadau fod wedi'u rhoi yng nghategori'r sector llywodraeth gyffredinol (o fis Ebrill 1993 ymlaen yng Nghymru).

Cyfeiriodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol at nifer o wahanol reolaethau gan y sector cyhoeddus, ond un o'r pwysicaf oedd honno a oedd yn ymwneud â SAB yn cael benthyg arian, a lle'r oedd gofyn i unrhyw SAB gael caniatâd gan y llywodraeth berthnasol i wneud hynny.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, caiff yr ailddosbarthiad hwn effaith negyddol ar y sector addysg bellach yng Nghymru.

---

[5] Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ***Ddatganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet - Coleg Harlech CAG Gogledd Cymru ar 29 Ebrill 2013,***. Roedd yn rhoi manylion am awydd Coleg Harlech CAG y Gogledd i uno â CAG y De, gyda'r bwriad o sefydlu coleg Cymru gyfan erbyn 31 Rhagfyr 2013 fan hwyraf.

[6] Swyddfa Ystadegau Gwladol, ***Reclassification of Further Education Corporations and Sixth Form Colleges in England***, 31 Mai 2012, tudalen 1 [fel ar 7 Mai 2013]

Yn benodol, bydd yr ailddosbarthu'n golygu newid sut y caiff gwybodaeth ariannol gan SAB ei chasglu a'i monitro a bydd hefyd yn effeithio ar sut y bydd SAB yn rheoli eu materion mewnol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn honni y byddai'n effeithio ar gyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru ac yn llesteirio camau gan SAB i ddwyn ymlaen wargedau yn eu cyllidebau a chronni cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

**O ganlyniad, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod yr ailddosbarthiad yn cael ei wyrdroi a bod statws colegau yng Nghymru fel sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd yn cael ei adfer.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn golygu y byddai gan SAB fwy o reolaeth dros eu materion eu hunain a phwerau penderfynu cryfach o ran penderfynu sut y mae diwallu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau lleol.

## *2.3. Datblygiadau yn Lloegr*

Ar ôl i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol benderfynu ailddosbarthu SAB a'u cynnwys yn y sector llywodraeth gyffredinol yn 2010, cynigiodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth newydd a oedd yn cael yr un effaith fwy neu lai, yng nghyswllt **SAB yn Lloegr,** ag a gynigir yn y Bil presennol.

Cafodd ***Deddf Addysg 2011***[7] Gydsyniad Brenhinol ar 15 Tachwedd 2011. Y darn allweddol o'r ddeddfwriaeth yw Atodlen 12 o'r Ddeddf a elwir yn 'Further Education Institutions - Amendments'. Mae'n diwygio *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*[8] a *Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*[9] o ran y pwerau a ddelir gan y sector cyhoeddus **yn Lloegr dros** Gorfforaethau Addysg Bellach a Chorfforaethau Colegau Chweched Dosbarth (nad ydynt ond yn bodoli yn Lloegr).

Ar ôl ystyried y newidiadau yn y Ddeddf, casgliad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw bod y newidiadau'n ddigonol i ddileu'r rheolaeth sydd gan y sector cyhoeddus dros bolisi corfforaethol cyffredinol Corfforaethau Addysg Bellach a Chorfforaethau Colegau Chweched Dosbarth yn Lloegr, **gan arwain at eu hailddosbarthu y tu allan i'r sector cyhoeddus.**

Daeth adrannau perthnasol y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2012 ac felly, ailddosbarthwyd Corfforaethau Addysg Bellach **yn Lloegr** a Chorfforaethau Colegau Chweched Dosbarth (Lloegr) **a'u gosod yn y sector NPISH o 1 Ebrill 2012 ymlaen.**

---

[7] ***Deddf Addysg 2011*** (Pennod 21) (Saesneg yn unig) [fel ar 2 Mai 2013]
[8] ***Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*** (Pennod 13) (Saesneg yn unig) [fel ar 2 Mai 2013]
[9] ***Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*** (Pennod 22) (Saesneg yn unig) [fel ar 2 Mai 2013]

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau nad yw'r penderfyniad hwn i ailddosbarthu Corfforaethau Addysg Bellach a Chorfforaethau Colegau Chweched Dosbarth yn Lloegr a'u gosod yn y sector NPISH o fis Ebrill 2012 ymlaen yn effeithio ar ddosbarthiad y cyrff yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n dal i fod yn nosbarth sector y llywodraeth ganolog. Byddant yn dal i fod yn y dosbarth hwnnw nes y cyflwynir unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth a allai effeithio ar y sefydliadau hyn.

### *2.4. Rhannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau addysg uwch*

Mae'r elfennau addysg uwch yn y Bil yn ymwneud â bwriad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r system ar gyfer penderfynu ar feini prawf cymhwystra penodol ar gyfer derbyn cymorth ariannol gan awdurdodau lleol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr erbyn **mis Chwefror 2014.**[10]

Er mwyn gwneud hyn, mae'r darpariaethau sydd yn y Bil yn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i sefydlu proses ar gyfer dilysu incwm aelwydydd i ddisodli'r model casglu data ar bapur a ddefnyddir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yn y maes hwn.

[10] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews), ***Yr Adolygiad o Gyflenwi Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru***, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 9 Mehefin 2010 [fel ar 7 Mai 2013]

## 3. Llinell amser

### *3.1. Adolygiadau blaenorol o addysg bellach*

Mae SAB yng Nghymru wedi'u hadolygu droeon dros y blynyddoedd, ac yn eu tro, mae'r adolygiadau hyn wedi llywio cynnwys y Bil hwn. Crynhoir y rhain isod:

Ym **mis Rhagfyr 2006,** comisiynwyd **Syr Adrian Webb** gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol eang ei gwmpas ('**Adolygiad Webb')** o'r sector addysg bellach yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn sgil hynny, ***Addewid a Chyflawniad***, ym mis **Rhagfyr 2007.** Ynddo, cafwyd nifer o argymhellion am ystod eang o feysydd, gan gynnwys llywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn pwysleisio'n benodol bod rhwydweithiau'n bwysig a bod angen i drefniadau llywodraethu colegau fod yn atebol am berfformiad y sefydliadau a'i gyfraniad at rwydweithiau. Roedd Webb yn cydnabod yr arferion da a oedd eisoes ar waith mewn rhai SAB gan sicrhau bod llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig yn y broses werthuso, drwy asesu ansawdd a phrosesau'n ymwneud â pherfformiad, ond bod angen mabwysiadu hyn yn fwy cyffredinol.

Ym mis **Ebrill 2009,** cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, John Griffiths AC, fwriad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu SAB ymhlith rhanddeiliaid. Er mwyn bwrw ymlaen â'r adolygiad, sefydlwyd **Grŵp Gorchwyl a Gorffen** i gynnig opsiynau ar gyfer diwygio. Ei bwrpas cyffredinol oedd rhoi opsiynau ymarferol i'r Dirprwy Weinidog er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu addysg bellach a oedd ar waith ar y pryd. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn sgil hyn, sef ***Cyfrifoldeb ac Ymatebolrwydd***, ym mis **Mai 2010.**[11]

Ym mis **Gorffennaf 2010,** sefydlodd y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd banel o arbenigwyr i ymchwilio i wahanol fodelau ar gyfer llywodraethu SAB. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol dan gadeiryddiaeth **Mr Rob Humphreys, Cyfarwyddwr Cymru'r Brifysgol Agored.** Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp ***Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Llywodraethu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru,*** ym mis **Mawrth 2011.**

[11] Llywodraeth Cymru, *Cyfrifoldeb ac Ymatebolrwydd - Adolygiad Rhanddeiliaid o Drefniadau Llywodraethu AB*, Mai 2010 [fel ar 2 Mai 2013]

Aeth yr Adolygiad ('**Adolygiad Humphreys')** ati i ystyried modelau llywodraethu a fyddai'n ymateb i anghenion dinasyddion, dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau ar y pryd ac yn y dyfodol. Cafwyd 41 o argymhellion yn yr adroddiad. Roedd cynigion panel yr Adolygiad yn canolbwyntio ar system lywodraethu newydd i SAB yng Nghymru, a honno'n cynnwys dau faes: bwrdd 'meinach' newydd, yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol, a'r rheini wedi'u penodi ar sail sgiliau ac arbenigedd, yn hytrach nag ar sail categorïau, a **Chorff Aelodaeth** newydd i sicrhau bod y SAB yn ymgysylltu'n llawn â'i gymuned gan gynnwys dysgwyr, cwsmeriaid, cyflogwyr, partneriaid strategol eraill a staff.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus i ofyn i'r cyhoedd am ei farn ynghylch rhai o'r argymhellion, a hynny rhwng **mis Mawrth a mis Mehefin 2011.**[12]

## *3.2. Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru*

Ar **12 Gorffennaf 2011** gwnaeth y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, ddatganiad mewn Cyfarfod Llawn ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd ganlynol hyd etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016.[13]

Roedd y datganiad hwnnw'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno *Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru)* a fyddai'n cwmpasu pedwar prif amcan ar draws y sbectrwm addysg. Yn benodol, rhagwelid y byddai Bil o'r fath yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Cyflwyno darpariaethau ynghylch rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon;
- Diwygio sector addysg uwch Cymru;
- Bwrw ymlaen â newidiadau i drefniadau llywodraethu SAB;
- Diwygio'r system datganiadau bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig.[14]

---

[12] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru***, 28 Mawrth 2011 [fel ar 2 Mai 2013]
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, Y Rhaglen Ddeddfwriaethol 2011-2016***, 17 Gorffennaf 2011 [fel ar 2 Mai 2013]
[14] Ibid

Erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y rhaglen ddeddfwriaethol fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys y darpariaethau hyn mewn Biliau ar wahân, gan gyflwyno'r cynigion ynghylch addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)* yn lle hynny. Yn ei ddatganiad am y rhaglen ddeddfwriaethol ar **17 Gorffennaf 2012,** dywedodd y Prif Weinidog fod angen Bil oherwydd:

> penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ail-ddosbarthu colegau addysg bellach fel rhan o Lywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifon cenedlaethol. Rydym yn bwriadu ceisio gwyrdroi'r ailddosbarthiad hwnnw, yn amodol ar farn rhanddeiliaid. Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i gadw pwerau ymyrryd er mwyn sicrhau na pheryglir ansawdd yr addysg na hyfywedd ariannol.[15]

O ran y sector addysg uwch, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil:

> yn ceisio diwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd y Bil hefyd yn ceisio diwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Cedwir ac estynnir swyddogaethau sicrhau ansawdd y cyngor i gynnwys gwella'r ddarpariaeth addysg uwch. Rydym am sefydlu agwedd fwy cydlynol rhwng holl ddarparwyr addysg ôl-16, a byddwn yn ceisio pwerau i Weinidogion Cymru ariannu'r ddarpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol er mwyn cefnogi gweithgarwch partneriaeth a chydweithredu lle bo hynny'n strategol briodol.[16]

Dywedodd hefyd: 'Bydd y Bil hefyd yn ceisio darpariaeth i gryfhau llais y dysgwr, trefniadau mynediad teg a gweithdrefnau datrys anghydfod ym maes addysg uwch'.[17]

## *3.3. Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Bapur Gwyn ar *Fil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)*** ar **2 Gorffennaf 2012.**[18] Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **24 Medi 2012.** Cafwyd cyfanswm o 55 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ceir ***crynodeb o'r ymatebion*** ar wefan Llywodraeth Cymru.[19]

Mae'r prif gynigion ynghylch llywodraethu addysg bellach sydd yn y Papur Gwyn yr un fath â'r hyn a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, mae'r cynigion ynghylch y sector addysg uwch yn wahanol iawn i'r hyn sydd yn y Bil.

Yn y Papur Gwyn, roedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, wedi dweud bod y cynigion ar gyfer addysg uwch yn mynd i'r afael â'r angen canlynol:

> Ailwampio'r fframwaith atebolrwydd a rheolaeth sy'n cael ei weithredu drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r drefn newydd ar gyfer ffioedd dysgu a chyllido a fydd yn cael ei chyflwyno ym mis Medi 2012.[20]

---

[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol***, 17 Gorffennaf 2012
[16] Ibid
[17] Ibid
[18] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)***, 2 Gorffennaf 2012 [fel ar 2 Mai 2013]
[19] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o'r Ymatebion: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru),*** Mawrth 2013 [fel ar 2 Mai 2013]
[20] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)***, 2 Gorffennaf 2012, tudalen 1 [fel ar 2 Mai 2013]

**Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn ar gyfer y sector addysg uwch wedi'u cynnwys yn y Bil.**

Nid oedd y Papur Gwyn yn ymgynghori ar y cynigion ar gyfer rhannu data mewn perthynas â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr. Dywed Llywodraeth Cymru mai'r rheswm dros hyn yw bod y cynigion ar gyfer rhannu data'n cael eu gweld fel mân newidiadau technegol.[21]

Ar **6 Mawrth 2013,** cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig lle'r oedd yn cydnabod bod angen rhagor o ddatblygu ar y cynigion ynghylch addysg bellach. Dywedodd:

> O ran addysg uwch, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddadansoddi a datblygu ymhellach y cynigion yn y Papur Gwyn. Byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn (…)Byddwn yn bwrw ymlaen â'r darpariaethau mewn perthynas ag Addysg Bellach a Rhannu Data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel deddfwriaeth i'w chyflwyno yng ngwanwyn 2013.[22]

## *3.4. Deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

Cyflwynwyd deiseb o dan y teitl '**Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus**' i'r Cynulliad ym mis **Chwefror 2013** gan Gangen Cross Keys o Undeb y Prifysgolion a'r Colegau. Mae 246 o bobl wedi'i llofnodi hyd yn hyn. Dywed y Ddeiseb:

> Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau:
>
> 1. Y caiff addysg bellach, ynghyd ag asedau sy'n cael arian cyhoeddus, eu cadw o fewn y sector cyhoeddus.
>
> 2. Y bydd colegau'n parhau i ymrwymo i gytundebau cenedlaethol o ran Addysg Bellach, fel y graddfeydd cyflog cenedlaethol.
>
> 3. Y caiff contract Cymru gyfan ei gyflwyno ar gyfer darlithwyr ym maes Addysg Bellach
>
> 4. Na fydd Gweinidogion Cymru yn diddymu colegau na rhoi'r gallu i golegau drosglwyddo eiddo, hawliau a chyfrifoldebau i gorff arall.[23]

Mae'r ddeiseb wrthi'n cael ei hystyried gan Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

[21] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Esboniadol: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)***, Ebrill 2013, paragraff 42 [fel ar 2 Mai 2013]

[22] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (Y Gweinidog Addysg a Sgiliau), ***Datganiad Ysgrifenedig - Crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ymatebion i'r Papur Gwyn - Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013***, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 6 Mawrth 2013 [fel ar 2 Mai 2013]

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus***, 19 Chwefror 2013 [fel ar 2 Mai 2013]

# 4. Y Bil

## *4.1. Nodau ac amcanion polisi*

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar wahân ar gyfer y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch.

**O ran addysg bellach, nod y Bil yw sicrhau bod yr ailddosbarthiad o SAB, at ddibenion cyfrifyddu yn cael ei wyrdroi, gan symud SAB o'r sector llywodraeth gyffredinol i fod yn 'sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd' ('NPISH')**

Nod y Bil yw cyflawni hyn drwy gryfhau annibyniaeth a gallu SAB i wneud penderfyniadau drwy ddileu ac addasu'r rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r Bil yn bwriadu sicrhau'r newidiadau canlynol er mwyn gallu ailddosbarthu SAB:

- Dileu'r gofyniad statudol presennol ar SAB i gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw **drefniadau benthyca.** Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried mai rheolaethau'r sector cyhoeddus dros fenthyca yw un o'r ffactorau pwysicaf yn eu meini prawf dosbarthu.
- Caniatáu i SAB **addasu neu ddisodli eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu**, ar yr amod eu bod yn dal i gynnwys gofynion sylfaenol.
- Dileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu.
- Rhoi'r rhyddid i SAB **wneud newidiadau i'w corff llywodraethu, eu cyfansoddiad a'u ffyrdd o weithio.** Byddai hyn yn cynnwys rhoi rhagor o ryddid i SAB weithredu drwy gyfrwng **trefniadau is-gorff** (megis cwmni cyfyngedig neu sefydliad corfforedig elusennol), heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.
- Caniatáu i **SAB ddiddymu eu hunain** a throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r coleg i gorff arall. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r broses y byddai gofyn i SAB ei dilyn cyn y gellid eu diddymu drwy reoliadau.

**O ran addysg bellach, mae'r Bil yn rhoi sylfaen statudol i'r polisi y bwriada Llywodraeth Cymru ei gyflwyno, sef caniatáu i Gyllid a Thollau EM a Gweinidogion Cymru rannu cyswllt data at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.**

Mae'r fframwaith statudol presennol, sydd yn *Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998*[24] ('Deddf 1998'), yn dweud na chaiff Cyllid a Thollau EM ond darparu data ar weithredu'r cynllun benthyciadau i fyfyrwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol neu i'r rhai y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dirprwyo neu drosglwyddo swyddogaethau penodol iddynt. Gan nad yw na Gweinidogion Cymru na'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar hyn o bryd yn dod o fewn y categorïau hynny, mae'r Bil yn ceisio diwygio Deddf 1998 er mwyn galluogi Cyllid a Thollau EM i roi gwybodaeth at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

Bwriedir i'r ddarpariaeth hon greu 'porth rhannu data' i foderneiddio'r gwasanaeth darparu Cyllid i Fyfyrwyr Cymru er mwyn symleiddio a chreu arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth hwnnw. Mae hefyd wedi'i bwriadu i greu proses ymgeisio fwy effeithlon gan helpu i leihau hawliadau twyllodrus drwy ganiatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr gadarnhau ffigurau incwm aelwydydd drwy ddulliau electronig (yn hytrach na defnyddio'r system bapur sydd ar waith ar hyn o bryd). At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd y newid hwn yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr un swyddogaethau ag sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yn Lloegr a'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon.

## *4.2. Darpariaethau*

Mae'r Bil yn gymharol fyr ac mae'n cynnwys **11 o Adrannau** a **2 Atodlen.** Mae 8 Adran yn berthnasol i SAB (Adrannau 1 i 8) a dim ond 1 Adran (Adran 9) sy'n berthnasol i'r sector addysg uwch. Crynhoir pob adran isod:

**Adran 1 (Benthyca a buddsoddi gan gorfforaethau addysg bellach).** Mae'r adran hon yn diwygio *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*[25] er mwyn dileu'r gofyniad ar SAB yng Nghymru i gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn iddynt allu arfer eu pwerau i fenthyca arian, i ffurfio cwmni neu fuddsoddi mewn cwmni neu i ddod yn aelod o gorff corfforedig elusennol.

**Adran 2 (Offeryn ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg bellach).** Yn yr adran hon cyflwynir **Atodlen 1 (Offeryn ac erthyglau llywodraethu)** a diwygir adran 20 o *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* er mwyn gwneud darpariaeth newydd a llai rhagnodol ynghylch cynnwys offerynnau ac erthyglau llywodraethu SAB yng Nghymru. Mae **Atodlen 1** yn pennu'r elfennau hanfodol y mae'n ofynnol i SAB eu cynnwys yn eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu.

[24] *Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998* (Pennod 30) (Saesneg yn unig) [fel ar 2 Mai 2013]
[25] *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* (Pennod 13) [fel ar 2 Mai 2013]

**Adran 3 (Diddymu corfforaethau addysg bellach).** Mae'r adran hon yn disodli Adrannau 27 i 28B *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* er mwyn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu SAB a throsglwyddo'u heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i ddarparwr addysg arall. Yn hytrach, bydd gan SAB y pŵer i'w diddymu eu hunain, ar yr amod eu bod wedi bodloni rhai amodau penodol. Mae hefyd yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i addasu a disodli erthyglau ac offerynnau llywodraethu.

**Adran 4 (Sefydliadau dynodedig: offerynnau ac erthyglau llywodraethu).** Mae'r adran hon yn disodli Adrannau 29B a 29C o *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* er mwyn dileu'r gofyniad ar i SAB orfod cael caniatâd gan Weinidogion Cymru cyn iddynt allu addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu. Yn hytrach, bydd gan SAB y pŵer i addasu neu i ddisodli eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu eu hunain.

**Adran 5 (Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â sefydliadau o fewn y sector addysg bellach)**. Mae'r adran hon yn diwygio Adran 57 o *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo corff llywodraethu SAB i ddefnyddio'i bwerau newydd i'w ddiddymu ei hun.

**Adran 6 (Diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio a chyfarwyddiadau)**. Mae'r Adran hon yn diwygio Adrannau 33J a 33L o *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*[26]ac Adrannau 116I ac 116K o *Ddeddf Addysg 2002*[27] er mwyn dileu'r gofyniad ar i SAB gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru ynghylch cynllunio cwricwla lleol a chydweithio i ddarparu cwricwla lleol. Fodd bynnag, rhaid i SAB ddal i roi sylw i'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynllunio a darparu cwricwla lleol.

**Adran 7 (Diddymu pŵer i reoleiddio cyrsiau addysg uwch yn y sector addysg bellach).** Mae'r Adran hon yn diddymu adran 139 o *Ddeddf Addysg 2002* fel na all Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mwyach sy'n gwahardd SAB rhag darparu cyrsiau addysg uwch heb eu cymeradwyaeth ac sy'n rheoleiddio niferoedd a chategorïau'r myfyrwyr ar gyrsiau o'r fath.

**Adran 8 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)**. Mae'r Adran hon yn cyflwyno **Atodlen 2 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)** sy'n diwygio gwahanol Ddeddfau, Gorchymyn a Mesur y Cynulliad (*Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru 2009),*[28] yn sgil adrannau eraill yn y Bil.

---

[26] ***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*** (Pennod 21) [fel ar 3 Mai 2013]
[27] ***Education Act 2002*** (Pennod 32) [fel ar 3 Mai 2013]
[28] ***Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*** (Nawm1) [fel ar 2 Mai 2013]

**Adran 9 (Cyflenwi gwybodaeth mewn cysylltiad â benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr).** Mae'r Adran hon yn diwygio Adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 er mwyn sefydlu cyswllt rhannu data rhwng Cyllid a Thollau EM a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw un y bydd Gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddynt.

**Adran 10 (Cychwyn).** Mae'r Adran hon yn dweud y daw Adrannau 9 ac 11 i rym ar y diwrnod y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Daw'r adrannau sy'n weddill i rym drwy Orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 11 (Enw byr).** Mae'r Adran hon yn dweud mai enw byr y Bil, ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol, fydd *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.*

## *4.3. Gweithredu ac adolygu*

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai dyma'r amserlen bresennol ar gyfer ystyried a gweithredu'r Bil:

- **Dechrau mis Rhagfyr 2013:** Pasio'r Bil, os dyna fydd ewyllys y Cynulliad;
- **Haf 2014:** Cwblhau'r is-ddeddfwriaeth;
- **Medi 2014:** Cyflwyno'r newidiadau ar gyfer SAB.[29]

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y darpariaethau sydd yn y Bil sy'n effeithio ar y sector addysg uwch yn dechrau ar unwaith ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, a allai fod mor gynnar â mis **Ionawr 2014.**[30] Pwrpas hyn yw sicrhau bod modd i Lywodraeth Cymru lansio'i menter Cyllid Myfyrwyr Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl sefydlu system cyllid i fyfyrwyr y DU gyfan, a allai fod ar waith mor gynnar â mis Tachwedd 2013. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cyflwyno gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru yn llawn ar gyfer y **flwyddyn academaidd 2014-2015**. Bydd hynny'n cynnwys lansio'r cyswllt rhannu data ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.[31]

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth ymhen blwyddyn ar ôl ei rhoi ar waith er mwyn gofyn i randdeiliaid am eu barn ynglŷn â'i dylanwad.[32]

[29] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Esboniadol: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)***, Ebrill 2013, paragraff 36 [fel ar 2 Mai 2013]
[30] Ibid, paragraff 38
[31] Ibid, paragraff 39
[32] Ibid, paragraff 145

## 5. Goblygiadau ariannol

Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru**, ni fydd cyflwyno'r Bil yn golygu costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru oherwydd y bydd yn glynu wrth y status quo.**[33]

Mae'r costau y cyfeirir atynt yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly'n cyfeirio at flwyddyn 1 yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu a choladu'r enillion ariannol ychwanegol **(£4,700 y flwyddyn)** a chostau archwilio ychwanegol SAB **(£72,600 y flwyddyn)**

O ran y darpariaethau addysg uwch sydd yn y Bil sy'n ymwneud â rhannu data er mwyn cadarnhau incwm aelwyd myfyriwr, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud na fydd 'unrhyw gostau datblygu na chostau gweithredu yn gysylltiedig â'r diwygiadau hyn'[34] oherwydd y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn defnyddio systemau a phrosesau sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Ar ôl eu rhoi ar waith, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod Cyllid a Thollau EM wedi amcangyfrif mai cost y broses sy'n gysylltiedig â Cyllid Myfyrwyr Cymru fyddai **£30,000,** ar sail rhagdybiaeth gynllunio y byddai'n ymdrin â 23,500 o wiriadau incwm bob blwyddyn.[35]

---

[33] Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Esboniadol: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)* Ebrill 2013, paragraff 94 [fel ar 2 Mai 2013]
[34] Ibid, paragraff 114
[35] Ibid, paragraff 115

## 6. Ymatebion

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ar y Bil i Aelodau'r Cynulliad yn y cyfarfod llawn ar **30 Ebrill 2013,** dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, wrth sôn am lywodraethu addysg bellach:

> Rwyf wedi ymrwymo i gael gwared â nifer o reolaethau a chyfyngiadau deddfwriaethol ar golegau, heb newid prif bwerau sefydliadau addysg bellach i ddarparu addysg bellach, uwch ac, (o fewn rhai cyfyngiadau) addysg uwchradd.[36]

Ychwanegodd, fodd bynnag, y byddai'r Bil hefyd yn cynnwys 'rheolaethau priodol'[37] ar gyfer SAB i ategu'r hyblygrwydd newydd a roddid iddynt. Esboniodd y Gweinidog:

> Felly, pe digwydd i goleg ddangos ei fod yn methu â diwallu anghenion y dysgwyr a'r rhai y mae'n eu gwasanaethu, rwyf wedi cynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru ymyrryd. Mae'r pwerau hyn yn sylweddol, a gallent arwain at gael gwared ar y corff llywodraethu neu roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu gydweithio...Fel y cyfryw, gall yr Aelodau deimlo'n sicr bod y cynigion hyn yn cynyddu gallu a hyblygrwydd golegau, ond nad ydynt yn tynnu'r pwysau oddi ar golegau[38]

O ran y cynigion yn y Bil sy'n ymwneud â'r sector addysg uwch, dywedodd y Gweinidog:

> Credaf y bydd i'r ddarpariaeth hon fanteision clir i fyfyrwyr a Chyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd yn cyflymu'r broses weinyddol ar gyfer y myfyriwr, a bydd hefyd yn galluogi Cyllid Myfyrwyr Cymru i ganfod, atal a rhwystro twyll yn fwy effeithiol drwy gymharu incwm aelwyd ymgeisydd â chofnodion treth Cyllid a Thollau EM.[39]

Yn ôl y Gweinidog, bydd y newidiadau hyn hefyd yn 'yn arbed arian sylweddol, yn symleiddio'r broses ymgeisio ac yn darparu gwasanaeth cyflymach, mwy llyfn ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am fenthyciadau a grantiau'.[40]

Roedd llefarydd addysg y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns AC, yn croesawu'r darpariaethau sydd yn y Bil ar gyfer addysg bellach ac ar gyfer addysg uwch. Fodd bynnag, cododd y pwynt canlynol ynghylch ailddosbarthu SAB:

> un o'r peryglon yw nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi i bwyllgor dosbarthu cyfrifon cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol y sicrwydd angenrheidiol bod camau allweddol wedi'u cymryd i gynyddu annibyniaeth colegau addysg bellach, ac felly na fyddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. A allwch chi fanylu ynglŷn â'r hyn y byddwch yn ei wneud i leihau'r perygl hwnnw? [41]

---

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Cyfarfod Llawn: Cyflwyno Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth (Cymru):*** 30 Ebrill 2013 [fel ar 2 Mai 2013]
[37] Ibid
[38] Ibid
[39] Ibid
[40] Ibid
[41] Ibid

Ymateb y Gweinidog oedd:

> mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a byddwn yn disgwyl i hynny barhau. Rwyf yn dychmygu ei bod yn deal ein hamcanion drwy'r ddeddfwriaeth hon. Mae dull tebyg wedi cael ei fabwysiadu yn Lloegr, ac mae trafodaethau eraill ar y gweill yng Ngogledd Iwerddon, rwyf yn credu, ac o bosibl yn yr Alban hefyd. Ni allaf roi sicrwydd absoliwt, ond yn sicr rydym yn gweithio, rydym yn credu, o fewn ysbryd yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei geisio[42]

Dywedodd Simon Thomas AC wrth yr Aelodau na fyddai Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r Bil hwn ac y byddant yn 'gymharol niwtral' wrth ei ystyried.[43] Fodd bynnag, cododd bwyntiau tebyg i'r rhai a godwyd gan Angela Burns AC ynghylch a fydd y Bil yn cyflawni'i nodau, sef sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ailddosbarthu SAB:

> Felly rwy'n pryderu braidd nad yw'r Gweinidog yn gallu dweud yn blwmp ac yn blaen ei fod yn meddwl bod y Bil hwn yn cyflawni gofynion yr ONS ac y bydd modd, felly, unioni'r sefyllfa fel y mae. Os nad yw'n gallu gwneud hynny, byddai'n well gennyf fynd yn ôl at adroddiad Humphreys, a dweud y gwir, ac edrych ar y patrwm hwnnw. Os ydym yn mynd i gael patrwm fel hynny, man a man i ni ddeddfu yn y modd hwnnw. Gofynnaf i'r Gweinidog eto, felly, esbonio sut y bydd y Bil hwn yn cyflawni'r hyn y mae'r ONS yn chwilio amdano yn y cyd-destun Cymraeg.[44]

Ychwanegodd fod rhai rhanddeiliaid wedi dweud eu bod yn poeni am y Bil ar ei ffurf bresennol 'gan ei fod yn rhoi cymaint o hyblygrwydd i'r sector nes bod modd hyd yn oed dehongli ei fod yn rhyddhau'r sector yn llwyr oddi wrth y gofyniad i gwrdd ag amcanion y Llywodraeth'.[45]

Credai hefyd y byddai'r Bil yn arwain at sefyllfa 'od...lle bydd gan y Gweinidog hawl i ddiddymu prifysgol ond nid hawl i ddiddymu coleg addysg bellach'.[46]

Ymateb y Gweinidog oedd:

> Credaf fy mod wedi ei gwneud yn glir o'r blaen - nid yw'n gyfrinach - nad hwn oedd y llwybr yr oeddwn yn ei ffafrio. Sefydlais adolygiad Humphreys. Ceisiais ddatblygu model menter gymdeithasol ar gyfer addysg bellach. Mae'n dal i fod yn fodel y gallai'r sector ei roi ar waith ar sail wirfoddol, ac mae gan rhai rhannau o'r sector ddiddordeb mewn gwneud hynny. Yn fy araith i gynhadledd Undeb y Brifysgol a'r Coleg y mis diwethaf, eglurais y byddai'n well gennyf fod yn dilyn trywydd gwahanol. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwneud ei barn yn glir o ran y ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'r dehongliad ohoni, ac mae angen i mi ddiogelu cyllidebau Llywodraeth Cymru, a chredaf fod pobl yn deal hynny yn gyffredinol

---

[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Cyfarfod Llawn: Cyflwyno Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)***, 30 Ebrill 2013 [fel ar 2 Mai 2013]
[43] Ibid
[44] Ibid
[45] Ibid
[46] Ibid

> O ran y llwybr deddfwriaethol a'r risgiau cysylltiedig, mae'n amlwg i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ein bod yn anfon signal sy'n dangos i ba gyfeiriad yr ydym yn symud. Gallwn hefyd ddarparu arweiniad ar lywodraethu. Mae fy swyddogion wedi gwneud yr hyn a allant i sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn deall ein hamcanion, a byddwn yn parhau i gynnal deialog â hi. [47]

Cododd Simon Thomas AC faterion hefyd ynghylch amodau gwaith a thelerau ac amodau'r rhai sy'n gweithio yn y sector addysg bellach:

> Byddwn hefyd am graffu ar y Bil i wneud yn siŵr nad oes dim byd yma sy'n rhwystro'r datblygiad sydd eisoes ar y gweill i ffurfio cytundeb cenedlaethol ar amodau gwaith y rhai sy'n gweithio yn y sector hwn - yn wir, gobeithiaf y bydd y Bil yn hyrwyddo'r gwaith hwn. Mae llawer o waith trafod wedi cael ei wneud yn wirfoddol ar y mater hwn dros y ddwy flynedd diwethaf; mae Plaid Cymru'n dymuno gweld hynny'n digwydd ac yn dod i fwcl. Byddwn am wneud yn siŵr nad yw'r Bil hwn yn rhoi cyfle i unrhyw un ddianc o ddod i gytundeb ar y materion hyn.[48]

Codwyd materion tebyg gan David Rees AC, Llafur Cymru, a chan lefarydd addysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts AC, a ddywedodd:

> Mae tipyn o boendod yn y sector, os bydd y strwythur newydd hwn yn dod i rym cyn i'r trafodaethau hynny fod yn hollol lwyddiannus, y bydd gan rai colegau gostau ychwanegol os ydynt yn mabwysiadu'r safonau cenedlaethol gan osgoi symud at y cytundebau cenedlaethol. A ydych yn fodlon â'r rheolaeth a fydd gennych chi fel Gweinidog? A oes perygl y bydd rhai colegau yn trosglwyddo asedau i gwmnïau? Mae'r pwynt hwnnw wedi'i godi. Mae gennych rai pwerau dros y colegau; a ydych yn fodlon bod y pwerau hynny'n ddigonol? [49]

Ymateb y Gweinidog oedd ei fod yn credu bod amodau gwaith 'yn faterion sydd ychydig ar wahân, ond gallwn ddychwelyd i'w trafod ymhellach yn ystod hynt y Bil'.[50]

Er ei fod yn croesawu'r Bil, cododd David Rees AC nifer o bryderon hefyd ynghylch darpariaethau sydd yn y Bil a fydd yn effeithio ar atebolrwydd SAB, aelodau byrddau llywodraethu SAB, y pwerau benthyca arfaethedig ar gyfer SAB a'r ddyletswydd arfaethedig ar SAB i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymunedau lleol.[51]

---

[47] Ibid
[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, ***Cyfarfod Llawn: Cyflwyno Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)***, 30 Ebrill 2013 [fel ar 2 Mai 2013]
[49] Ibid
[50] Ibid
[51] Ibid

Ymateb y Gweinidog oedd:

> Mae yna nifer o feysydd yr ydym wedi ceisio eu hegluro wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth hon. Roeddem bob amser yn bwriadu sicrhau bod lle ar gyfer dysgwyr ar y cyrff llywodraethu. Rydym yn disgwyl y bydd lleoedd ar gyfer staff, ac rydym yn disgwyl i'r staff fod yn wahanol i rôl y prif weithredwr neu brifathro'r coleg yn hynny o beth, a byddem yn disgwyl i arfer da gael ei ddilyn. Ceir cwestiynau yma ynglŷn â sut yr ydym yn nodi ein disgwyliadau, a gallwn eu harchwilio yn ystod hynt y Bil.
>
> Unwaith eto, o ran benthyca, nid wyf yn gwrthwynebu i golegau fenthyca er mwyn ehangu, ar yr amod bod y benthyca hwnnw er mwyn ehangu yn bodloni eu raison d' être craidd o ran cefnogi dysgwyr. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn ddychwelyd ato a'i drafod ymhellach.[52]

Bydd darpariaethau'r Bil ynghylch addysg bellach ac addysg uwch yn awr yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd yn craffu ar y cynigion ynghylch y sector addysg uwch. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu terfyn amser, sef **19 Gorffennaf 2013** ar gyfer cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

[52] Ibid